PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 30 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: |
| | Y Cynghorwyr: Richard Tebboth, Cowan, Margaret Jones, Phillips, John Hughes, Hollie Edwards-Davies, James Downe a/ac Hugh Thomas |
| | Cynghorydd Cymuned |

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lizz Roe.

15 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fuddiannau mewn perthynas ag eitem 4 gan y Cynghorydd G Phillips, Cynghorydd Cymuned J Hughes a Dr J Downe.

16 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

17 : SIARTER Y CYNGOR CYMUNED

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adran Weithredol wedi mabwysiadu Siarter Cynghorau Cymuned ("y Siarter") fis Mawrth 2012, yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y chwe Chyngor Cymuned o fewn ardal y Cyngor a'r Pwyllgor Safonau a Moeseg. Mae'r Siarter yn adlewyrchu'r Siarter model a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 130-133 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mewn ymateb i bryderon am weithredu'r Siarter, adolygodd y Pwyllgor Safonau a Moeseg y Siarter. Cyflëwyd barn y Cynghorau Cymuned gan gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r Siarter yn berthnasol o hyd ac yn gydnabyddiaeth bwysig o rôl y Cynghorau Cymuned wrth gynrychioli eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o adrannau'r Siarter yn cael eu gweithredu ac roedd angen eu diweddaru yng ngoleuni'r ffaith bod llai o adnoddau ar gael i'r Cyngor. Yn unol â hynny, fis Ionawr 2015, argymhellodd y Pwyllgor nifer o ddiwygiadau i'r Siarter i'r Cabinet.

Ystyriodd y Cabinet argymhellion y Pwyllgor Safonau a Moeseg fis Mehefin 2015. Ailgadarnhaodd ymrwymiad i nodau'r Siarter; dirprwyodd awdurdod i'r Swyddog Monitro (wrth ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol, y Pwyllgor Safonau a Moeseg a'r chwe Chyngor Cymuned), i ddiweddaru'r Siarter; ac awdurdododd yr Aelod Cabinet perthnasol i lofnodi'r Siarter a ddiweddarwyd ar ran Cyngor Dinas Caerdydd.

Yn dilyn trafodaethau a gohebiaeth gyda Chlercod y Cyngor Cymuned, derbyniodd y Pwyllgor Safonau a Moeseg adroddiad ar gynnydd fis Rhagfyr 2015 a diweddariad ar lafar yn ei gyfarfod Pwyllgor diwethaf, fis Gorffennaf 2016.

Esboniodd y Swyddog Monitro y cafodd llawer o waith ei wneud ar hyn a bod newidiadau wedi'u hymgorffori iddo, yn enwedig mewn perthynas â materion cynllunio. Cafwyd trafodaeth a chynhaliwyd sesiwn gynhyrchiol ond ni fu unrhyw gytundeb absoliwt o ran diweddaru'r Siarter.

Yn gryno, hoffai'r Cynghorau Cymuned gael eu cynnwys yn fwy mewn trafodaethau ar gytundebau A106, fodd bynnag roedd hyn yn rhan o'r broses gynllunio a gynhaliwyd gan swyddogion, ni chafodd unrhyw Gynghorwyr eu cynnwys; yna aeth swyddogion â hyn i'r Pwyllgor Cynllunio. Esboniodd y Swyddog Monitro ei bod hi a Phennaeth yr Adran Gynllunio yn cytuno na fyddai'n briodol i Gynghorau Cymuned gael eu cynnwys.

Ystyriodd y Swyddog Monitro fod pob ymdrech wedi'i wneud a bellach bod rhaid nawr i'r Cynghorau Cymuned nail ai cytuno â'r Siarter fel y mae, h.y., heb y mater cynllunio ynddo, neu ei adael tan yr ôl yr etholiadau fis Mai.

Dywedodd Cynghorydd Cymuned Hughes na fyddai'r Cynghorau Cymuned eisiau cytuno ar y Siarter fel y mae. Ychwanegodd y cafodd y Cynghorau Cymuned eu gwahodd i hyfforddiant ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a chytundebau A106 fis Awst; lluniwyd dogfen yn dweud beth fyddai'n cael ei wneud. Aeth Cynghorydd Cymuned Hughes ati i drafod y mater ymhellach gyda'i gyd-Gynghorwyr Cymuned er mwyn ceisio dod o hyd i ddatrysiad.

Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at Gynghorau Cymuned yn y gofrestr ASC ac y gallai gynnwys cyfeiriad at drafodaethau gyda Chynghorau Cymuned. Nodwyd ymhellach nad oedd y broblem hon yn bodoli yn unman arall ledled Cymru.

Ystyriwyd ei bod yn amser ceisio torri'r sefyllfa ddiddatrys; mae gan 13 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru y Siarter a chan bod gan Gaerdydd y datblygiad mwyaf yn mynd yn ei flaen, roedd angen bod â strwythur ar waith.

PENDERFYNWYD: Dylid

i) nodi cynnwys yr adroddiad.

ii) cytuno i'r Swyddog Monitro edrych ymhellach ar y mater ynghyd â'r Swyddogion Cynllunio

## 18 : COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU

Dywedwyd wrth yr aelodau y darparwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gyfer y pwyllgor ac at ddibenion monitro.

Nodwyd, weithiau rhoddir cymeradwyaeth gyffredinol o ran gwaith cyfredol yr ymgymerir ag ef gan swyddogion.

Mewn perthynas â’r statws Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol, nodwyd bod yr Aelodau'n hoffi’r fformat hwn am ei fod yn dryloyw.

Cynhaliwyd trafodaeth am nifer cofnodion yr Arglwydd Faer ac esboniodd y swyddogion y cafodd pob cofnod dros £25 ei gynnwys felly yn aml byddai llawer o gofnodion ar gyfer achlysuron a digwyddiadau.  Esboniwyd ymhelwch i hyn gael ei gyflwyno ar ôl argymhelliad Archwilio.

PENDERFYNWYD: Nodi’r wybodaeth a roddwyd yn Atodiad B am gofrestru lletygarwch, rhoddion a buddion eraill i’r Aelodau yn ystod y cyfnod o 17 Medi 2015 tan 30 Medi 2016.

## 19 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 2: 2016/17

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai er gwybodaeth oedd yr adroddiad hwn.  Roedd nifer y cwynion yn gyffredinol wedi lleihau, cafodd dwy gŵyn eu datrys ac roedd un yn fyw.

Ystyriodd Dr Downe y byddai’n ddefnyddiol derbyn y llyfr achosion a gynhyrchir bob chwarter gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nodwyd y gallai’r Swyddog Monitor ymgymryd ag ymyriadau cynnar gyda Chynghorau Cymuned ac y gallai Cadeiryddion a Chlercod Cynghorau Cymuned gael eu gwahodd i gyfarfodydd Safonau a Moeseg.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 20 : YMSEFYDLU A DATBLYGU AELODAU

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Ymsefydlu Aelodau yn gosod y naws ar gyfer y weinyddiaeth nesaf; roedd yn bwysig ymateb i anghenion yr Aelodau ac roedd angen bod yn sionc gan fod graddfa amser fer rhwng pryd y caiff aelodau newydd eu hethol a phryd y cynhelir ymsefydlu Aelodau.

Ystyriwyd y bu hyn yn ddarn da o waith, ac y gallai’r fframwaith cymhwysedd gydweddu â’r hyfforddiant a chael ei gynnwys yn yr Ymsefydlu.

Cynhaliwyd trafodaeth ar gymhwysedd a nodwyd ei fod yn bwysig cael trafodaethau personol gydag Aelodau mainc gefn i weld pa gymorth oedd ei angen arnynt er mwyn iddynt ymgymryd â’u rolau, fel sy’n digwydd gyda’r Cabinet a gyda Chadeiryddion Craffu, Cynllunio a Thrwyddedu.  Ystyried y gallai hyn fod ar gael i Aelodau Safonau a Moeseg hefyd, yn enwedig mewn perthynas â Gwrandawiadau lle y dylid cynnal hyfforddiant yn syth cyn gwrandawiad er mwyn bod yn ffres.

Nodwyd y byddai’n ddefnyddiol i aelodau Safonau a Moeseg fod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ar ôl yr etholiad a chyfrannu at y sesiwn.
PENDERFYNWYD: Dylid

i. nodi bod gweithgarwch adfywio ynglŷn â'r Strategaeth Datblygu Aelodau mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio'r Aelodau a'r Grŵp Projectau Swyddogion i'w gwblhau i'w lofnodi gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Pwyllgor Safonau a Moeseg erbyn mis Mawrth 2017;
ii.
iii. derbyn a nodi llyfryn y Rhaglen Datblygu Aelodau 2016/17 fel y’i atodir at yr adroddiad;

iv. derbyn y Cwricwlwm Ymsefydlu Aelodau hanfodol a baratowyd gan y CLILC ac adnabod unrhyw ofynion hyfforddi lleol ychwanegol y byddai’r Pwyllgor yn dymuno eu gweld yn y rhaglen.

21 : ARSYLWADAU O GYFARFODYDD PWYLLGOR

Darparwyd profforma i'r Aelodau o'r enw 'Adborth ar Arsylwadau o Gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau' a gofynnwyd iddynt roi eu sylwadau.

Ystyriwyd, yn y Cyngor y dylai'r Cwestiwn Cyhoeddus fod ar gael; esboniodd y Swyddogion fod y cwestiwn ar gael ar-lein ac mae'n gysylltiedig â'r eitem briodol yn y gwe-ddarlledigad.

Roedd yr Aelodau’n bryderus ynglŷn ag ymddygiad a welsant mewn cyfarfodydd Cyngor ac yn ogystal roeddent yn ystyried bod y cyfarfodydd yn rhy hir.  Roedd arsylwadau eraill yn cynnwys acwsteg wael yn y siambr, amseriad yr egwyl, Cynghorwyr yn siarad dros ei gilydd, amharchu’r Gadair a Chynghorwyr yn gadael y cyfarfod yn gynnar.

Dywedodd y Swyddogion fod rhai pethau allweddol wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf, roedd arfer bod egwyl lle y byddai pob Cynghorydd o bob plaid yn cael lluniaeth gyda’i gilydd, ac yn naturiol byddai hyn yn sicrhau bod elfen o hunanreolaeth yn digwydd.  Ar hyn o bryd mae pob cynghorydd yn mynd i ystafelloedd grŵp ar wahân  a gall materion ddwysáu.

Dywedodd y Swyddog Monitro, yn ogystal â chael eu herio ganddi hi, roedd yn bwysig i grwpiau’r pleidiau herio unigolion; roedd hyn yn rhywbeth a ystyriwyd yn bwysig ar gyfer Ymsefydlu'r Aelodau.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a Moeseg ar 1 Chwefror 2017 am 4.30pm yn YB 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified